# Adran Lle a Seilwaith

# Llythyr Newyddion Gaeaf 2023

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

## Hoffwn ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chi a'ch teuluoedd.

Mae Nadolig arall wrth y drws. Yn sicr, gallwn edrych yn ôl ar flwyddyn brysur arall yn 2023, pan welwyd llawer o newidiadau o fewn yr Adran ac i rai o'n gwasanaethau.

Mae ambell un wedi ymddeol, fel y cafodd ei grybwyll yn fy llythyr newyddion diwethaf, ac mae rhai wedi ymuno â'n timau amrywiol yn yr Adran.

Un o'r newidiadau mawr a fu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf oedd uno'r hen is-adran Trafnidiaeth a Phriffyrdd â'r is-adran Gwasanaethau Amgylcheddol a Gwastraff, i greu'r is-adran Seilwaith Amgylcheddol newydd. Mae hwn yn gryn waith ac mae'r trefniadau newydd yn dal i gael eu gwneud. Mae'r swyddogaethau o fewn yr is-adran yn parhau heb eu newid ac rydym yn parhau i ddarparu ein gwasanaethau craidd, sy'n cynnwys casglu deunydd ailgylchu a sbwriel, glanhau strydoedd, cynnal a chadw tiroedd, gweithgareddau gorfodi, cynnal a chadw priffyrdd, gwasanaethau trafnidiaeth a chludiant, rheoli parcio a chynnal a chadw cerbydau.

Newid sylweddol arall a fu oedd trosglwyddo'r unedau Dylunio Eiddo a Chynnal a Chadw Eiddo o'r Adran hon i Adran y Prif Weithredwr, er mwyn darparu gwasanaeth rheoli eiddo mwy strategol a chydlynol. Yn ogystal, mae'r tîm o'r is-adran Gwella Gwasanaethau a Thrawsnewid, a oedd yn cefnogi'r swyddogaeth dylunio a chynnal a chadw eiddo, hefyd wedi trosglwyddo i Adran y Prif Weithredwr.

Rydym wedi gweld newid mawr yn y gwasanaeth casglu gwastraff yn y 12 mis diwethaf, ar ffurf cyflwyno gwasanaeth ailgylchu wythnosol newydd, gwasanaeth casglu gwydr bob tair wythnos, a chasglu gwastraff bagiau du bob tair wythnos. Mae'r newidiadau wedi arwain at welliannau yn ein perfformiad ailgylchu, gan fod ein cyfradd ailgylchu bron iawn yn 72% yn ystod dau chwarter cyntaf y flwyddyn. Wrth gwrs, mae angen i ni wneud mwy o hyd ac mae'r tîm eisoes yn dechrau ymgynghori a chynllunio ar gyfer y system gasglu didoli wrth ymyl y ffordd, yn barod ar gyfer cyflwyno'r ail gam yn hydref 2025.

Gan fod y gaeaf wedi cyrraedd ers tro bellach, mae gwaith megis graeanu wedi hen gychwyn ac mae ein tryciau wedi'u gwasanaethu a'u calibro, ein sguboriau halen â chyflenwad digonol ynddynt, a'r biniau halen/graean yn ein cymunedau wedi'u llenwi.

Mae'r tywydd rydym wedi ei gael yn yr hydref ac yn awr ar gychwyn y gaeaf yn sicr wedi profi ein systemau, wrth i ni baratoi ar gyfer stormydd ddaeth â gwyntoedd cryfion a glaw trwm i'r sir. Wrth ymateb i argyfyngau yn ystod y cyfnod hwn, rydym wedi gorfod delio â choed sydd wedi cwympo, rhwystrau mewn ceuffosydd/draeniau a nifer o lifogydd.

Mae'r tywydd eithafol wedi gadael ei farc ar ein priffyrdd eisoes, ac rydym wedi gorfod cau dau ddarn ffordd gwahanol yn ardal Caerfyrddin am sawl wythnos o achos tirlithriad a digwyddiad yn ymwneud â difrod dŵr. Mae ein timau o ddylunwyr, rheolwyr asedau a rheolwyr gweithredol, criwiau adeiladu a chontractwyr yn gweithio'n galed i adfer y briffordd yn y ddau leoliad hyn.

Rydym hefyd wedi gweithredu cynllun terfyn cyflymder 20mya Llywodraeth Cymru ar draws rhwydwaith ffyrdd y sir, yn unol â chanllawiau'r Llywodraeth. Dyma ichi dasg anferthol ac rydym yn parhau i fonitro effeithiolrwydd y cynllun 20mya.

Hefyd mae datblygiad Llwybr Dyffryn Tywi wedi bod yn agwedd bwysig arall ar waith yr Adran, a'r ffocws ar y pryd yw dylunio, paratoi contractau gwaith a'r broses barhaus o ran prynu tir ar gyfer y cynllun. Yn ystod wythnos olaf mis Tachwedd buom yn rhan o Ymchwiliad Cyhoeddus oedd yn gysylltiedig â phrynu tir yn orfodol. Rydym yn aros am ganlyniad yr Ymchwiliad Cyhoeddus gan uned Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru Llywodraeth Cymru.

Rydym yn parhau i roi strategaethau, cynlluniau a mesurau ar waith i wella ein cyfraniad at ofalu am yr amgylchedd mewn termau ecolegol a lleihau carbon, ac mae nifer o gamau ar waith i gyflawni ein hamcanion.

Mae gwaith sylweddol wedi'i wneud yn ystod y flwyddyn ar Gynllun Datblygu Lleol newydd y Cyngor sydd, i'w esbonio'n syml, yn nodi fframwaith ar gyfer datblygu'r sir a defnydd tir yn y dyfodol. Mae'r Cynllun hwn yn allweddol i'r sir wrth ystyried datblygiadau'r dyfodol a'u heffeithiau.

Yn y cyd-destun hwn, mae'r is-adran Lle a Chynaliadwyedd yn parhau i ymdrin â cheisiadau cynllunio sylweddol sydd o bwysigrwydd gwirioneddol i'r sir, yn ogystal â delio â cheisiadau cynllunio ar raddfa lai ac agweddau eraill megis ystyriaethau draenio cynaliadwy, rheoli adeiladu ac achosion gorfodi cynllunio. Rydym yn parhau i wella ein perfformiad yn y maes hwn.

Mae ein timau o fewn yr is-adran Gwella Gwasanaethau a Thrawsnewid yn parhau i gefnogi'r gwaith o gyflawni cyfres lawn o swyddogaethau a gwasanaethau'r Adran. Mae'r timau yn yr is-adran yn cydweithio ar draws yr Adran a'r Cyngor ehangach i wella systemau, prosesau, caffael a gweithredu atebion TG a sicrhau bod anfonebau a data yn cael eu prosesu mewn modd amserol i sicrhau y gallwn gyflawni ein swyddogaethau mewn ffordd effeithlon. Agwedd bwysig ar waith y tîm yw cydgysylltu a rheoli cysylltiadau, ymatebion a chwynion cwsmeriaid. O ystyried maint y gwasanaethau rydym yn eu darparu fel Adran, mae hwn yn gryn waith.

Mae swyddogaethau eraill a ddarperir yn y tîm Gwella Gwasanaethau a Thrawsnewid yn cynnwys gwasanaethau uniongyrchol, fel glanhau ysgolion ac adeiladau, a gwasanaethau hyfforddiant gweithredol. Mae'r timau hyn yn brysur iawn oherwydd bod y galw am y gwasanaethau hyn yn sylweddol.

Unwaith eto, bydd pwysau enfawr ar ein cyllideb y flwyddyn nesaf, ac mae'n rhaid i mi ystyried sut rydym yn mynd i ymdrin â sefyllfa'r gyllideb ar gyfer yr Adran. Mae'r Prif Weithredwr, cyfarwyddwyr eraill a minnau, sy'n ffurfio'r Tîm Rheoli Corfforaethol, yn parhau i weithio gyda Chabinet y Cyngor er mwyn ymateb i'r heriau hyn. Ni fydd setliad terfynol y gyllideb gan Lywodraeth Cymru yn hysbys tan ychydig cyn y Nadolig.

Rwy'n gobeithio y bydd y nodyn byr hwn yn amlinellu rhai o agweddau a maint y gwasanaethau a ddarparwn fel Adran ac yn nodi peth o'r gwaith rydych wedi'i gynllunio, wedi bod yn rhan ohono ac wedi'i gyflawni dros y 12 mis diwethaf.

Rhaid i mi ddiolch i bob un ohonoch yn ddiffuant am eich gwaith caled wrth ddarparu ein hystod eang o wasanaethau i'n trigolion, busnesau a phartneriaid yn Sir Gaerfyrddin, yn ogystal ag ymwelwyr â'n sir. Diolch yn fawr hefyd i'r timau dylunio/cynnal a chadw/cymorth eiddo am eu cyfraniad i'r Adran dros y flwyddyn a blynyddoedd blaenorol.

Rwy'n sylweddoli y gall fod yn anodd cwrdd â'r holl ofynion sydd arnom fel Adran ar adegau, ond mi wn eich bod bob amser yn gwneud eich gorau i ateb y gofynion hynny. Gwerthfawrogir eich cefnogaeth a'ch ymrwymiad parhaus yn fawr.

Ainsley

## Ceir Adrannol

Mae gennym dudalen benodol sy'n cynnwys yr holl wybodaeth am ein cynllun ceir adrannol - [Ceir Adrannol Lle a Seilwaith](http://mewnrwyd/ein-pobl/teithio-a-pharcio/ceir-adrannol-adran-lle-a-seilwaith/)
http://mewnrwyd/ein-pobl/teithio-a-pharcio/ceir-adrannol-adran-lle-a-seilwaith/

Mae'n hanfodol bod pob defnyddiwr ceir adrannol yn defnyddio'r dudalen hon i gael atebion i gwestiynau ac i ddod o hyd i wybodaeth am y cynllun cyn cysylltu â swyddogion.

Er mwyn sicrhau y gall y cynllun ceir adrannol barhau, mae'n hanfodol bod gyrwyr yn cymryd cyfrifoldeb am lenwi'r ffurflenni'n gywir, gan roi gwybod am ddiffygion a difrod.

Mae'n bwysig nad oes unrhyw un yn cymryd car adrannol heb ei archebu ar y system archebu Outlook a llenwi'r ffurflenni.

Hoffem eich hysbysu bod yn rhaid i bob gyrrwr gwblhau asesiad gyrrwr cyn gyrru unrhyw un o'n cerbydau awtomatig, p'un a ydynt yn gwbl drydanol neu'n hybrid neu'n gerbydau petrol/diesel. Mae hyn yn orfodol a gallwch archebu drwy **TSTraining@sirgar.gov.uk**

Bydd angen rhoi gwybod am unrhyw faterion mecanyddol ar unwaith i **envbsufleet@sirgar.gov.uk**

Os oes gennych unrhyw broblemau o ran archebu, e-bostiwch **EMSO@sirgar.gov.uk**

**Peidiwch â chysylltu â swyddogion yn uniongyrchol, rhaid i chi ddefnyddio'r blychau post hyn.**



## Hysbyseb Physiotherapy Wales

Mae ein gwasanaeth Physiotherapy Wales yn agored i holl staff yr Adran.

Rydym wedi cael adborth ardderchog gan staff sydd wedi cael eu hatgyfeirio ato a byddem yn annog pob rheolwr llinell i ddefnyddio'r gwasanaeth hwn i gefnogi eu staff pan fo angen.

Y cyfan y mae angen i reolwyr llinell ei wneud yw e-bostio Physiotherapy Wales i ofyn am asesiad i'w haelod o staff. Mae mor hawdd â hynny! E-bost: **donna.wilcox@physiotherapywales.co.uk**




## Diwrnod Siwmper Nadolig



**Roedd hi yn Diwrnod Cenedlaethol Siwmper Nadolig ar dydd Iau 7fed Rhagfyr.**

**Hoffem eich gwahodd chi I cynnal Dydd Siwmper Nadolig yn Gwaith yn Rhagfyr i helpu i godi arian at Elusen Achub y Plant.**

**Trwy wisgo ein gwau Nadoligaidd a rhoi, byddwn yn cefnogi plant yn y DU ac o gwmpas y byd i gadw'n ddiogel, yn iach, ac i ddysgu. Byddwn yn eu helpu i frwydro am y dyfodol y maent yn ei haeddu.**


**Gallwch chi gofrestru heddiw neu ddefnyddio'r cyfrif rydw i eisoes wedi'i greu a'i rannu o fewn eich Timau.**

**I gyfrannu £5 tecstiwch CCCSAVE i 70050 neu Ymwelwch â'n tudalen Just Giving yma.**


*Edrychwn ymlaen at weld eich holl Siwmperi Nadolig!*

## 40 mlynedd o wasanaeth hir

Mae Viv Philips wedi cyrraedd carreg filltir enfawr yn ei yrfa yn 2023, gan gronni 40 mlynedd o wasanaeth.







Mae Viv yn Brif Beiriannydd yn yr uned dylunio peirianegol a dechreuodd ei yrfa gyda chyn-Gyngor Sir Dyfed ym mis Medi 1983 fel technegydd yn yr adain dylunio a gwella priffyrdd.

Trwy gydol ei yrfa bu Viv yn ymwneud yn bennaf â dylunio a gwella priffyrdd, gyda Chyngor Sir Dyfed a Chyngor Bwrdeistref Llanelli i ddechrau, cyn ad-drefnu yn 1996, pan ymunodd â Chyngor Sir Caerfyrddin.

Treuliodd Viv gyfnod byr yn Adran Penseiri Cyngor Sir Dyfed ond sylweddolodd yn fuan beth fyddai ei alwedigaeth. Hoffwn ddiolch i Viv am ei gyfraniad gwerthfawr a'i wasanaeth ymroddedig.

*Adrian Harries*

## Her Camau – Gadewch i ni Ddarganfod Sir Gâr!

Rydym yn lansio ein Her Camau gyntaf, lle bydd y staff gweithredol yn erbyn staff y swyddfa!

Paratowch i wisgo eich esgidiau ymarfer ac ymuno â ni am her gyffrous – Her Camau Fawr Lle a Seilwaith! Rydym yn gyffrous i gyhoeddi cystadleuaeth gyfeillgar rhwng ein staff gweithredol a staff y swyddfa i weld pwy all gofnodi'r nifer fwyaf o gamau **rhwng 15 a 26 Ionawr!**

**Sut mae'n gweithio:**

- **Dewiswch eich tîm:** Dewiswch ymuno â'r Tîm Gweithrediadau neu Dîm y Swyddfa pan fyddwch yn cofrestru. E-bostiwch **ShRees@sirgar.gov.uk** Bydd taenlen yn cael ei hychwanegu at y ffeiliau, lle gallwn gofnodi ein camau bob wythnos.
- **Tracio Camau:** Defnyddiwch eich traciwr ffitrwydd neu ap ffôn clyfar i gofnodi eich camau dyddiol. Mae pob cam yn cyfrif! Bydd pob tîm gweithredol yn cael traciwr camau i'w argraffu a gallant ei roi i'w goruchwyliwr bob wythnos i'w e-bostio atom i'w gofnodi.
- **Sesiynau Gwirio Wythnosol:** Byddwn yn cael sesiynau gwirio wythnosol i dracio cynnydd pob tîm. Bydd diweddariadau yn cael eu rhannu bob wythnos i gadw'r cyffro'n fyw.
- **Dathlu llwyddiant:** Ar ddiwedd yr her, bydd y tîm buddugol nid yn unig yn gallu brolio ond byddant yn cael dathliad haeddiannol i gydnabod eu cyflawniad.

## Her Canser y Nadolig



Os na allwch aros tan y flwyddyn newydd, beth am ymuno â mi, Shannen Rees? Rwy'n codi arian i elusen sy'n agos at fy nghalon, Ymchwil Canser y DU. Her Nadolig yr elusen yw 'Her 12 trochfa'r Nadolig'. Dyma lle mae'n rhaid i chi 'ymdrochi' mewn dŵr oer, fel y môr, ar 12 achlysur gwahanol.

Rydw i wedi bod yn archwilio'r traethau hardd o'n cwmpas gyda fy ffrindiau i gyflawni'r her hon. Ymunwch â mi a chofrestru ar y wefan: **Ymchwil Canser y DU**.

Os hoffech gyfrannu at Ymchwil Canser y Nadolig hwn, ewch i'n tudalen Just Giving: **https://fundraise.cancerresearchuk.org/page/shannens-giving-page-35**

# Safonau Ymddygiad

Mae partïon Nadolig yn gyfle i ymlacio ac i fwynhau hwyl yr ŵyl, ac er nad yw'r 'parti gwaith' fel arfer yn cael ei gynnal yn y gweithle nac yn ystod oriau gwaith, dylech gofio bod y parti yn estyniad o'r gweithle a'ch bod yn dal i gynrychioli'r Awdurdod.

Sicrhewch eich bod wedi darllen y Canllawiau ynghylch Safonau Ymddygiad yn y Gweithle, sydd hefyd yn cynnwys adran ar alcohol yn y gweithle a dolen i'n Polisi Camddefnyddio Alcohol a Sylweddau, a hefyd darllenwch ein Polisi Cyfryngau Cymdeithasol mewn perthynas â phostio cynnwys. Os ydych yn chwilio am gymorth neu gyngor ynghylch sut i leihau faint o alcohol rydych yn ei yfed, gallwch gael rhagor o wybodaeth drwy fynd i'n tudalennau Iechyd a Llesiant ar y fewnrwyd.

Byddwch yn ymwybodol hefyd o'r rheolau diweddaraf ynglŷn â derbyn rhoddion a lletygarwch.

Byddwch yn ymwybodol hefyd o'r rheolau diweddaraf ynglŷn â derbyn rhoddion a lletygarwch.

Ni ddylech dderbyn unrhyw roddion personol, benthyciadau, ffioedd, gwobrau neu fantais gan ddefnyddwyr gwasanaeth, contractwyr, darpar gontractwyr neu gyflenwyr allanol, waeth beth fo'u gwerth.

Os cynigir unrhyw beth i chi, waeth beth fo'r gwerth, mae'n rhaid i chi wrthod y cynnig ac yna ei ddatgan, drwy fynd i'ch cyfrif MyView a defnyddio ein proses "Datgan Rhoddion a Lletygarwch" ar-lein newydd, sydd o dan yr adran "Fy Ffurflenni".

Os cynigir unrhyw beth i chi, waeth beth fo'r gwerth, mae'n rhaid i chi wrthod y cynnig ac yna ei ddatgan, drwy fynd i'ch cyfrif MyView a defnyddio ein proses "Datgan Rhoddion a Lletygarwch" ar-lein newydd, sydd o dan yr adran "Fy Ffurflenni". Gellir dod o hyd i'r canllawiau llawn ar ein tudalen Côd Ymddygiad i Swyddogion ar y fewnrwyd,

Os ydych yn rheolwr, a fyddech cystal â sicrhau bod eich timau yn ymwybodol o'r neges hon.

*Mwynhewch eich dathliadau mewn modd cyfrifol*



# White Ribbon Campaign













White Ribbon yw prif elusen y DU sy'n gweithio gyda dynion a bechgyn i roi terfyn ar drais yn erbyn menywod a merched.

Mae cam-drin domestig yn effeithio ar y ddau ryw, ond mae dynion yn fwy tebygol o fod yn droseddwyr. Fodd bynnag, mae trais yn erbyn menywod nid yn unig yn fater I fenywod, ond yn broblem gymdeithasol y mae angen i bob un ohonom fynd i'r afael â hi.

Rydym yn cefnogi ymgyrch y Rhuban Gwyn eleni, sy'n dechrau ddydd Sadwrn, 25 Tachwedd ac sy'n parhau am 16 Diwrnod o Weithredu.

Eleni mae'r ymgyrch yn gofyn sut y gallwch chi #NEWIDYSTORI ac mae dwy ffordd i chi helpu. Drwy herio'r agweddau a'r ymddygiadau 'diniwed' i bob golwg sy'n peri i drais yn erbyn menywod a merched barhau. Gallwch wneud hyn trwy wneud yr addewid "i beidio byth â chyflawni, esgusodi nac aros yn dawel am drais dynion yn erbyn menywod a herio unrhyw beth amhriodol a welwch."

Os nad ydych wedi gwneud yn barod gallwch wneud yr addewid ar-lein HEDDIW.

Gallwch hefyd gwblhau'r modiwl e-ddysgu y gallwch ei gyrchu trwy ein tudalennau mewnrwyd Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.

**Dyma rai lluniau o'n Tîm Lle ac Seilwaith yn cymryd yr addewid.**

# Sesiynau Dysgu

Mae rhaglen o sesiynau dysgu thematig wedi'i threfnu ar gyfer staff Lle a Seilwaith ac yn dilyn ein sesiwn gyntaf yr wythnos diwethaf, nodwyd y gallai'r pynciau fod yn ddefnyddiol i ystod eang o staff ar draws yr adran.

Edrychwch ar y dudalen Sesiynau dysgu ar gael i chi ar y fewnrwyd lle gallwch weld recordiadau o sesiynau dysgu blaenorol yn ogystal â gwybodaeth am y sesiynau dysgu nesaf sydd wedi'u hamserlennu.

Os ydych chi'n gallu cynnal sesiwn ddysgu neu os oes gennych chi bwnc yr hoffech chi ei weld yn ymddangos ar raglen y sesiwn ddysgu, e-bostiwch: **kellythomas@sirgar.gov.uk**

# Dechreuwyr Newydd

Yn ddiweddar, rydym hefyd wedi croesawu nifer o unigolion talentog i'n teulu Lle a Seilwaith, ac rydym yn falch iawn eu bod wedi ymuno â ni.

Maent yn dod â chyfoeth o sgiliau, profiad a safbwyntiau newydd a fydd, heb os, yn cyfrannu at lwyddiant a thwf parhaus ein Hadran.

### Hoffem roi croeso cynnes i:

Edward Gibson a Ricky Elsey, *Technegwyr Gweithdy*

James Wright, Stuart Powell a Tamas Orban, *Gweithwyr Ffordd*

Carys Attwell, *Swyddog Hwb Cynllunio*

Karen Bolton, *Swyddog Gorfodi a Monitro Cynllunio*

Dylan Morgan, *Technegydd Amddiffyn rhag Llifogydd a Diogelu'r Arfordir*

Casey Colcombe, *Hyfforddai Graddedig Amddiffyn rhag Llifogydd a Diogelu'r Arfordir*

Guy Morris, *Hyfforddwr Kerbcraft*

Andrea Evans, *Cynorthwyydd Rheoli Gwybodaeth*

Ffion Hopkins, *Technolegwr Pensaernïol*

Georgia Sloley, *Swyddog Rhaglen*

Richard Heseltine, *Llwythwr Cerbyd Sbwriel/Ailgylchu*

Rwy'n falch iawn o estyn croeso cynnes i'n haelodau mwyaf newydd o'r tîm glanhau! Mae eich rôl yn allweddol o ran cynnal amgylchedd glân a chyfforddus i'n hysgolion a'n hadeiladau corfforaethol, ac rydym yn wirioneddol ddiolchgar eich bod wedi ymuno â ni.

Cheryl Smith, Giulio Pollano, Lianne Lavercombe, Agata Warchol, Sharon Pickup, Chloe Edwards, Nicola Bagagiolo, Rhian Carroll, Anna Luszczewska, Ffion Randell, Agnieszka Zubilewicz, Angharad Jones, Silvana Worrall, Katarzyna Niewiadomska, Kim Davies, Georgina Kyei, Laura Williams, Nicola Lloy, Michelle Dummer, Rachael Summers, Helen Punshon, Alexandria Mccauley-Williams, Sophie Evans, Maggie Vetter, Rachael Summers, Sonia Campbell, Casey Lowes, Catherine Howells a Nicola Lloyd.

Croeso

# Ymadawyr

**Hoffem anfon ein dymuniadau gorau i'r staff canlynol sydd wedi gadael eu swyddi ers mis Medi 2023:**

Stephen Pilliner, *Pennaeth Trafnidiaeth a Phriffyrdd*

Louise McFarlane, *Swyddog Polisi a Datblygu Teithio gan Ddysgwyr*

Andrew Boote, *Arolygydd Fflyd*

Tracey Gough, *Gweithrediadau Gwastraff a Gwasanaethau Masnachol*

*Glenda Brettle,* Carwyn Williams, Nicola Hancock, Claire Yeo, Amanda Evans, Gwyneth Williams, Charlotte Roberts a June Evans, *Cynorthwywyr Teithwyr*

Elgan Griffiths, *Gweithiwr Tiroedd*

Stephen Bonar, *Ceidwad Parc*

Owain Enoch, *Swyddog Rheoli Datblygu*

Brian Vanstan, *Hebryngwr Croesfan Ysgol*

Luke Davies Lovell, *Syrfëwr Adeiladu*

Elenor John, *Swyddog Dylunio Pensaernïol*

Stuart Rudge, *Nicholas Chappell a Philip Leaf, Gweithwyr Ffordd*

David Evans, *Fforman Depo*

Gareth Scourfield, *Technegydd Cefnffyrdd*

Luke Smith, *Prentis Gweithdy Fflyd*

Laura Beale, *Swyddog Cymorth Prosiect*

Aaron Evans, Matthew Barresi ac Adrian Thomas, *Gyrwyr Cerbydau Sbwriel/Ailgylchu*

Jonathan Willis, *Rheolwr Prosiectau Amgylcheddol*

Daniel Amner, *Warden Gwastraff ac Ailgylchu*

Rhian Evans, Joanne Lloyd, Emily Coombes, Emma Turner, Gemma Kelly, Phillippa Gower, Louise Roberts, Aimee Rees, Ffion Randell, Bethan Aston, Sonia Jenkins, Jennifer Tippett, Halaina Hillier, Michael Bryan, Keith Williams, Anarawd John, Nichaela Cullen, Kim Davies, Andrew Pontin, Caroline Taylor, Susan Porter, Becky Hughes, Dianna Davies, Sonia Campbell, Daniel Steele, Paula Edwards-Parry, Rhys Cassell, Donna Bromham, Davina Kestin Rhea Phillips, Grace Nakiwala, Dawne Randell, Margaret Denyer, Rachael Summers, Anarawd John, Wayne Williams a Becky Hughes, *Glanhawyr.*